



Prifysgol Abertawe
Swansea University

Pam astudio trwy gyfrwng y Gymraeg?



Manteision addysg ddwyieithog...

Does dim dwywaith fod addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi datblygu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf, ond pam dylech chi fel myfyrwyr ddewis astudio rhan o'ch gradd trwy gyfrwng y Gymraeg?

Mae lluo o resymau dros wneud felly a nifer o gyfleoedd ym Mhrifysgol Abertawe os ydych chi'n penderfynu gwneud - darllenwch ymlaen am fwy.

abertawe.ac.uk/ar-frig-y-don

Ysgoloriaethau

Mae nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr sy'n dewis astudio rhywfaint o'u graddau trwy gyfrwng y Gymraeg i fanteisio'n ariannol trwy wneud felly. Ewch i wefan y brifysgol (abertawe.ac.uk) neu wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weld beth sydd ar gael ar eich cyfer chi.

Dewis ehangach

Yn amlwg os ydych chi'n gallu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, mi fydd mwy o ddewis o ran modiwlau ichi ddilyn fel rhan o'ch cwrs gradd. Gall hyn olygu eich bod yn astudio pwnc neu bynciau sy'n adlewyrchu eich diddordebau'n haws. Mae llyfryn modiwlau cyfrwng Cymraeg y Brifysgol ar ein gwefan.

Cymdeithasu

Mae hefyd nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg; mae neuaddau preswyl Penmaen ac hefyd Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan gyda llety'n benodol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ac mae'r Gym Gym (y Gymdeithas Gymraeg) yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol yn aml. Gwiriwch Facebook am fanylion.


Sgiliau

Trwy drin ambell i bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, fe welwch chi'n aml nad yw safbwynt y Gymraeg yn debyg i'r Saesneg. Mae'r gallu i drin pynciau a mynegi'ch hunain o wahanol safbwyntiau yn ogystal â mewn iaith arall yn sgil pwysig yn y byd gwaith.

Cyflogadwyedd

Mae galw cynyddol am weithwyr medrus yn y Gymraeg, ac mae cyflogwyr yn gynyddol ymwybodol o'r angen i recriwtio gweithwyr sy'n hyderus mewn mwy nag un iaith. Ar gyfartaledd, mae gweithwyr sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog yn ennill mwy na rhai uniaith Saesneg.

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, cewch gyfle i fynd ar gyfnod o brofiad gwaith Cymraeg gydag un o'n sefydliadau partner fel rhan o'ch cwrs neu'n ychwanegol.



Academi Hywel Teifi

Sefydlwyd Academi Hywel Teifi yn 2010 er cof am gyn-athro'r Gymraeg y Brifysgol, yr Athro Hywel Teifi Edwards. Trwy amrywiol weithgareddau mae'r Academi yn cefnogi, cynyddu a chyfoethogi darpariaeth addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe. Mae'r Academi yn gweithio ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cangen y Brifysgol wedi'i lleoli yn Academi Hywel Teifi.

Barn Myfyriwr: Gareth

"Mae Prifysgol Abertawe yn hygyrch dros ben ac yn ganolbwynt i nifer o weithgareddau. Dewisais astudio Daearyddiaeth oherwydd fy mod yn medru teithio fel rhan o'r cwrs, ac rwy'n hoff iawn o hynny! Mae amrywiaeth sylweddol o fodiwlau ac mae rhywbeth ar gael at ddant pawb. Rwy'n mwynhau'n fawr yn Abertawe oherwydd rwyf wedi cwrdd â nifer enfawr o ffrindiau newydd y byddaf yn cadw mewn cysylltiad â nhw am amser hir!"



Cysylltwch â ni!

Ar gyfer mwy o wybodaeth, ewch i dudalennau gwe Academi Hywel Teifi ar wefan y brifysgol neu anfonwch e-bost:



abertawe.ac.uk/academihywelteifi



astudio@abertawe.ac.uk



**Prifysgol Abertawe
Swansea University**

Manylion cyswllt:

Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr
Abaty Singleton
Prifysgol Abertawe
Abertawe SA2 8PP

astudio@abertawe.ac.uk
+44 (0)1792 602943
www.abertawe.ac.uk

© Prifysgol Abertawe Mehefin 2013